**Rhif: 5**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C19/0746/46/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **27/08/2019** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Tudweiliog** |
| **Ward:** | **Tudweiliog** |
| **Bwriad:** | **Gosod 8 carafan symudol** |
| **Lleoliad:** | **Trefgraig Isaf, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8LR** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATAU GYDA AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cyflwynwyd y cais yma'n wreiddiol i osod 10 carafán teithiol tymhorol a phedair pabell ar safle lle gweithredir safle gwersylla teithiol presennol ar gyfer y Clwb Carafanau a Gwersylla (mae'r dystysgrif ar gyfer 5 carafán neu gerbyd "motorhome" a hyd at 10 pabell). Derbyniwyd cynllun diwygiedig a chadarnhad cyn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar y 1.3.21 fod y bwriad i'w ddiwygio trwy dynnu'r elfen gwersylla yn gyfan gwbl o'r bwriad a lleihau nifer y carafanau o 10 i 8. Felly i gadarnhau, mae'r bwriad hwn ar gyfer lleoli 8 carafán symudol ar y safle. Ni fwriedir creu llecynnau caled ynghlwm a'r datblygiad ac mi fyddai'r adnoddau presennol yn ddigonol ar gyfer y bwriad trwy ddefnyddio mynedfa bresennol ynghyd a bloc toiledau a storfa biniau sydd eisoes ar ran o'r safle.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ag o fewn dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn a Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli. Nid yw'r safle yn yr AHNE. Mae mynediad at y safle ar hyd ffordd di-ddosbarth gymharol gul a throellog gyda'r lleoliad oddeutu milltir o'r gyffordd agosaf gyda priffordd y B4413 tra fod pellter o oddeutu 4.7 milltir tuag at bentref Aberdaron i gyfeiriad y de orllewin ac oddeutu 3.7 milltir tuag at bentref Sarn Mellteyrn i gyfeiriad y gogledd ddwyrain.

1.3 Mae'r safle presennol yn dir gwyrdd gyda gwrychoedd yn ei amgylchynu sydd yn ei wneud yn guddiedig o fewn yr ardal gyfagos a thrwy hynny, yn gwarchod golygfeydd i mewn ag allan o'r safle gan gynnwys unrhyw edrychiadau fyddai'n effeithio yn weledol ar yr AHNE. Mae tai yn wasgaredig gerllaw a thiroedd amaethyddol agored tu hwnt.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3 : Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

AMG 2: Ardaloedd o dirwedd arbennig

PS 19: Gwarchod a ble'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol

PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4 : Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 14: Yr economi ymwelwyr

TWR 5: Safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro

PS 20: Diogelu a ble'n briodol gwella asedau treftadaeth

AT 1: Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig

Hefyd yn berthnasol yn yr achos yma mae'r canlynol:

Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol: Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Nid yw'n ymddangos fod unrhyw hanes Cynllunio yn ymwneud yn benodol a safle'r cais yma.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim sylwadau ar adeg y cais gwreiddiol. Cynhaliwyd ail ymgynghoriad yn dilyn diwygio'r cais, derbyniwyd sylwad yn nodi y dylid gofalu fod yr adnoddau ymolchi a thoiledau yn briodol cyn ychwanegu'r 8 carafán symudol. |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad ar adeg y cais gwreiddiol. Derbyniwyd cadarnhad pellach nad oedd gwrthwynebiad i'r cynlluniau diwygiedig. |

| | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim sylw |
| Dŵr Cymru: | Heb eu derbyn |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd/Trwyddedu: | Sylwadau ar y cais gwreiddiol yn nodi fod cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos gofod annigonol rhwng unedau er mwyn cydymffurfio gyda gofynion cyfredol, gofynnir am gynlluniau diwygiedig er mwyn sicrhau gosodiad derbyniol neu leihau'r niferoedd o unedau y gofynnir amdano. Derbyniwyd ymateb i'r ail ymgynghoriad yn nodi nad oes gwrthwynebiad i'r datblygiad cyn belled ei fod yn cwrdd ag amodau trwydded. |
| Uned Hawliau Tramwy: | Heb eu derbyn. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben, ni dderbyniwyd llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Gan mai cais ar gyfer safle carafanau teithiol sydd yma, rhaid ystyried y cais o dan ofynion polisi TWR 5 y CDLl sy'n gosod cyfres o feini prawf ar gyfer caniatáu datblygiadau o'r fath.

5.2 Mae maen prawf 1 polisi TWR 5 yn datgan y dylai unrhyw ddatblygiad carafanau teithiol newydd fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad a hefyd dylai fod wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a / neu mewn lle gellir cydweddu'r unedau teithiol yn hawdd i'r dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i'w hansawdd weledol. Yn yr achos yma, rhaid ystyried mai cais ar safle sydd eisoes yn gweld defnydd o dan drwydded Clwb Carafanau a Champio fel maes carafanau teithiol ydi hwn, er ar raddfa llai o ran carafanau ond hefyd yn cynnwys elfen gwersylla yn ogystal.

5.3 Datganwyd pryder gan yr Uned Drwyddedu yn wreiddiol nad oedd yn eglur o'r cynlluniau os fyddai'r pellter rhwng y carafanau teithiol yn ddigonol gan fod rhaid gadael mwy na 6 medr o led rhwng carafanau teithiol ar gyfer adlen, car a 3 medr clir. Os nad ydyw safle'n cwrdd â safonau trwyddedu, ni chredir y gellir ei ystyried yn ddatblygiad o "ansawdd uchel". Nodwyd ar amrywiol adegau a thrwy trafodaethau pellach, y gellir sicrhau trefniant safle boddhaol ar gyfer dibenion trwyddedu trwy gyflwyno cynlluniau diwygiedig. Fel sydd wedi ei nodi uchod, derbyniwyd cynllun diwygiedig maes o law sydd yn dangos lleihad yn nifer y carafanau ar y safle o'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol a thynnu'r elfen gwersylla yn gyfan gwbl o'r cynnig. Credir bellach fod

gosodiad y safle fel a ddangosir yn ei ffurf diwygiedig yn dderbyniol a derbyniwyd cadarnhad gan yr Uned Drwyddedu fod y gosodiad a'r pellteroedd rhwng safleoedd bellach yn dderbyniol.

5.4 Derbynnir, oherwydd tyfiant presennol, y byddai'r datblygiad hwn wedi ei guddio'n dda yn y dirwedd.

5.5 Oherwydd y diwygiadau a wneir i'r bwriad, credir bod gwybodaeth ddigonol ar y cais bellach i ddangos ei fod yn cwrdd gyda gofynion polisïau TWR 5, PCYFF 3 a PCYFF 4 y CDLl.

**Mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl**

5.6 Ni ystyrir y byddai'r datblygiad yn cael niwed arwyddocaol ychwanegol amlwg ar fwynderau lleol oherwydd tirlunio sefydledig presennol oddiamgylch sydd yn creu sgrin addas ar gyfer y safle. Rhaid hefyd wrth gwrs ystyried fod defnydd presennol yn gweithredu o'r safle trwy drefniadau trwydded gan y Clwb Carafannau a Gwersylla sydd ddim yn destun caniatâd Cynllunio. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol o safbwynt yr agwedd yma ac ystyrir y bwriad yn dderbyniol o'r agweddau penodol hyn o Bolisi PCYFF 2.

**Materion trafnidiaeth a mynediad a chynaliadwyedd**

5.7 Ceir mynediad i'r safle oddi ar ffordd di ddosbarth sydd yn cysylltu gyda priffordd B4413 oddeutu milltir i'r de ddwyrain o'r safle. Ni wrthwynebir y bwriad gan yr Uned Drafnidiaeth.

5.8 Mae pwynt 12 o Bolisi PS 5 yn ymwneud gyda teithio cynaliadwy. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw yn safle y gellir ei gyrraedd drwy amrywiol ffyrdd gan gynnwys cerdded, beicio a cludiant cyhoeddus. Er hynny, o ystyried sefyllfa a defnydd presennol y safle, mae'n bur debyg fod cyfanswm uwch o symudiadau yn gallu deillio o ddefnydd y carafanau a gwersylla a thrwy gyfyngu'r cais presennol i ddefnydd o 8 carafán teithiol yn unig credir ar sail balans fod y bwriad presennol yn welliant i'r defnydd a ganiateir gan drwydded y Clwb Carafanau a Champio.

5.9. Nid yw cynigion sy'n gofyn am ddefnyddio cerbydau preifat yn cael eu gwahardd yn llwyr trwy'r CDLl, ond mae Polisi PS 5 yn hyrwyddo cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys cyfeirio datblygiad at y lleoliadau mwyaf priodol a lleihau'r angen i deithio gan ddefnyddio trafnidiaeth breifat.

5.10 Ond rhaid ystyried defnydd gwersylla presennol ar y safle ar gyfer carafanau a phebyll. Yn amlwg felly mi fyddai'r bwriad presennol i gael 8 carafán teithiol yn golygu cynnydd yn nifer y cerbydau yn ymweld a'r safle fyddai'n tynnu carafanau. Er hynny, ag fel sydd wedi ei egluro eisoes, cynnydd o 3 fyddai hyn a thrwy dynnu'r elfen gwersylla, mae'n debyg mai lleihad cyflawn a fyddai i symudiadau yn gysylltiedig a'r safle.

5.11 Felly o ystyried y defnydd presennol a niferoedd y bwriad yn ei ffurf diwygiedig, ni chredir ei fod yn annerbyniol ar sail gofynion perthnasol TWR 5 a PS 14.

**Hanes Cynllunio**

5.12 Fel sydd eisoes wedi ei nodi uchod, rhaid cydnabod fod defnydd presennol i'r safle trwy drwydded a threfniadau'r Clwb Carafanau a Gwersylla ac felly rhaid derbyn fod defnydd wedi ei

sefydlu. Byddai trwydded yn caniatáu hyd at 5 o unedau teithiol ac hyd at 10 pabell. Er mwyn sefydlu beth fyddai'r sefyllfa 'fallback' a gallu cymharu niferoedd ymwelwyr i'r safle dros gyfnod a'r hyn fyddai'n debygol o ddeillio o'r bwriad presennol, gofynnwyd am gofnodion er mwyn ceisio sefydlu'r gwahaniaeth, os o gwbl, rhwng defnydd hanesyddol y safle a'r defnydd bwriedig. Er na dderbyniwyd y wybodaeth yma, credir erbyn hyn fod y gwahaniaeth yn amlwg yn mynd i fod yn llai gan fod yr elfen gwersylla yn cael ei dynnu o'r cynnig. Mae'r cynnydd bychan fyddai'n caniatáu 8 carafán pan yn ei gymharu gyda'r hawl presennol am 5 carafán a hyd at 10 o bebyll yn amlwg ac fe greder fod gwelliant trwy reolaeth amodau perthnasol.

5.13 O ganlyniad, credir fod y bwriad yn ei ffurf diwygiedig yn cydymffurfio â Pholisïau TWR 5, PS 4, PS 5 a PS 14 y CDLl.

**Materion Ieithyddol**

5.14 Yn yr achos yma, ni chredir fod y bwriad yn cyrraedd trothwy gofynion PS 1 o ran yr angen i gyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg, yn benodol:

5.15 O ystyried graddfa a'r math o ddatblygiad a fwriedir, ni fuasai'r bwriad yn berthnasol i'r categoriau fel a ddiffinir o fewn meini prawf 1a, 1b a 1c ac felly ni fydd angen datganiad ar sail y gofynion yma o fewn Polisi PS 1.

5.16 Oherwydd maint y bwriad ni fydd angen Asesiad ieithyddol o dan maen prawf (2) o Polisi PS 1.

5.17 Os nad oes angen Datganiad Ieithyddol fe ddylid rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn unol â threfn sgrinio ceisiadau o fewn Atodiad 5 o'r 'CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. O ddilyn y canllawiau fel a amlinellir yn y CCA gofynnwyd i'r asiant gyflwyno datganiad sydd wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r Iaith Gymraeg. Ni dderbyniwyd ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ond o'i dderbyn, fe drafodir y mater ar lafar yn ystod y pwyllgor. Yn ogystal, credir y byddai'n rhesymol gosod amodau priodol er mwyn sicrhau arwyddion dwyieithog er mwyn cydymffurfio gyda categori CH 1 o'r atodiad yn ogystal â maen prawf 4 o bolisi PS 1 sy'n ymwneud gyda arwyddion dwyieithog.

**6. Casgliadau:**

6.1 Mae'r safle yma wedi ei sefydlu ar gyfer defnydd gwersylla a charafanau teithiol trwy drefniant trwyddedu'r clwb carafán a gwersylla. Mae'r defnydd presennol yn golygu fod 5 carafán yn gallu defnyddio'r safle ac i fyny at 10 o bebyll. Mae'r cynnig diwygiedig yn tynnu'r elfen gwersylla gyda phabell o'r bwriad a darparu safle ar gyfer 8 carafán teithiol yn unig. Gweler felly fod cynnydd o 3 carafán rhwng y defnydd carafán presennol a'r bwriedig ond oherwydd fod yr elfen gwersylla yn cael ei dynnu o'r bwriad, mae'n debygol fod y cynnydd yma yn ddibwys (negligible) pan yn cymharu gyda'r hyn allai weithredu o'r safle trwy ddefnyddio'r hawl gwersylla. Mi fyddai cyfyngu defnydd y safle i 8 carafán teithiol yn unig yn lleihau defnydd y safle a thrwy hynny, yr effaith yn lleol. Wedi asesu a phwyso a mesur y datblygiad yn ei ffurf diwygiedig yn ei gyfanrwydd yn erbyn gofynion yr holl bolisïau perthnasol, rhaid dod i'r casgliad fod y bwriad bellach yn dderbyniol. Mae ffurf a gosodiad yr unedau fel a ddangosir ar y cynllun diwygiedig yn arddangos gosodiad cwbl dderbyniol oherwydd gofod digonol rhwng y safleoedd unigol a'i fod o ganlyniad yn ddatblygiad derbyniol yn unol a maen prawf 1 o bolisi TWR 5

sydd yn nodi yr angen i ddatblygiad arfaethedig fod o ansawdd uchel o ran gosodiad ac edrychiad.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser

2. Unol a'r cynllun diwygiedig

3. Cyfyngu niferoedd a defnydd a dim pebyll i'w gosod o fewn safle'r cais

4. Cynllun arwyddion dwyieithog

Nodyn:

Angen sicrhau trwydded briodol